

Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 19 Medi 2023

Aelod / Swyddog Arweiniol Y Cyngorydd Elen Heaton / y Cyngorydd Gill German / Nicola Stubbins / Rhiaïn Morrle / Ann Lloyd

Awdur yr adroddiad Ann Lloyd / Nicola Pierce

Teitl Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru - Fersiwn Ddrafft O Gynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Darparu trosolwg o Gynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru (Gweler Atodiad 1) a blaenoriaethau Sir Ddinbych ar gyfer gwariant cyfalaf mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I ofyn i Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a blaenoriaethau cyfalaf Sir Ddinbych ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. I ofyn i Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a chytuno gyda blaenoriaethau cyfalaf Sir Ddinbych ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol integredig i gwrdd ag anghenion y dyfodol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol ddatblygu Cynllun Cyfalaf Strategol (CCS) 10 Mlynedd Ranbarthol sy'n cynnwys y darlun llawn o strategaethau a rhaglenni cyfalaf yr holl bartneriaid.

4.2. Mae dogfen CCS yn defnyddio a chydgrynhoi strategaethau cyfalaf sefydliadau unigol yn un strategaeth ranbarthol unigol. Bydd yn adnabod gweithio ar y cyd ac yn cael gwared ar ddyblygu, gan ddefnyddio a chefnogi cyfleoedd o weithio mewn partneriaeth ledled Gogledd Cymru.

4.3. Heb CCS rhanbarthol sy'n cynnwys manylion o holl raglenni cyfalaf partneriaid y CCS mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi na fyddan nhw'n ystyried ceisiadau yn y dyfodol ar gyfer arian gan ffrydiau cyllido cyfalaf iechyd a gofal cymdeithasol integredig rhanbarthol. Y ddwy ffrwd gyllido yw'r Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysio.

4.4. Tra bod y CCS yn canolbwyntio ar raglen cyfalaf iechyd a gofal cymdeithasol integredig, bydd y ddogfen hefyd yn amlinellu cynlluniau cyfalaf craidd a dyheadau sefydliadau partner unigol gan gynnwys Awdurdodau Lleol unigol a'r Bwrdd Iechyd, tai, iechyd, addysg, a chynlluniau cyfalaf ar gyfer adfywio.

4.5. Prosiectau o Flaenoriaeth Cyngor Sir Ddinbych

4.5.1.1. Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA) - Mae'r achos busnes llawn ar gyfer datblygu'r ysbyty wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan gynnig buddsoddiad o oddeutu £70 miliwn mewn creu campws gofal iechyd a lles ar, ac o gwmpas y safle. Bydd y prosiect yn darparu ystod o wasanaethau wedi'u hehangu a'u hail ddylunio mewn cyfleusterau sy'n bodoli eisoes ac yn newydd ar safle YBA. Mae'n cefnogi'r newid o symud adnoddau i leoliadau cymunedol, a symud gofal yn agosach i adref, datblygu gwasanaethau aml asiantaeth ddi-dor a phwyslais ar y system lles.

4.5.1.2. Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dinbych - cydweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych (CSDd), Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Trydydd Sector a nifer o fudd-ddeiliaid yn adolygu'r defnydd o'r holl adeiladau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn nhref Dinbych gyda'r bwriad o ddatblygu gwasanaethau mewn adeiladau sy'n addas i'r pwrpas a fydd yn cwrdd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol dinasyddion Dinbych a'r ardaloedd cyfagos. Yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yw Inffymari Dinbych, Cartref Gofal Dolwen a

Chaledfryn, ynghyd â rhai adeiladau iechyd llai yn y dref. Mae'r prosiect yn parhau i fod yn y cyfnod dichonoldeb gydag achos busnes amlinellol strategol yn cael ei ddatblygu.

4.5.3. Mae Gerddi Glasfryn yn Ninbych yn gyfleuster sydd eisoes yn bodoli ac yn darparu cyfleuster gofal preswyl yn ystod y tymor yn unig i ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei redeg gan yr ysgol ac nid yw'n cael ei gynnal ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r haf. Byddai'n lleoliad delfrydol i sefydlu cyfleuster preswyl lleol a fyddai'n cynnig egwyl fer a fyddai hefyd yn gallu parhau i gynnig gofal preswyl i ddisgyblion Ysgol Plas Brondyffryn yn yr wythnos yn ystod y tymor ac yna'n ymestyn y cynnig i ddarparu darpariaeth egwyl breswyl i bobl ifanc Sir Ddinbych sydd ag anghenion cymhleth ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

4.5.4. Prosiectau'r Dyfodol – gan ei fod yn gynllun strategol 10 mlynedd gallwch ychwanegu prosiectau ychwanegol i'r rhestr o flaenoriaethau ar gyfer Sir Ddinbych. Bydd hynny'n cynnwys darparu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghorwen a datblygu Cysgod-y-Gaer a Llygadog.

4.6. Mae prosiect Bwthyn y Ddol hefyd yn flaenoriaeth gorfforaethol i ni yma yn Sir Ddinbych, ond mi gafodd y cyllid cyfalaf ei gymeradwyo cyn y cafodd y Cynllun Cyfalaf Integredig Rhanbarthol ei gyflwyno, ac felly heb gael ei grybwyll yn y cynllun.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd y Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd yn cyfrannu at y blaenoriaethau canlynol

- **Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl** – Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn partneriaeth â CSDd ac / neu BIPBC yn gallu gwneud cynigion am gyllid er enghraifft; i ddatblygu tai gofal ychwanegol, Grŵp Cynefin wedi cael mynediad i Grant Tai â Gofal mewn perthynas â datblygu Llys Awelon yn Rhuthun.

- **Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar** – mae datblygu'r prosiectau hyn yn darparu gwell darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gan gwrdd ag anghenion ein dinasyddion yn y dyfodol yn Sir Ddinbych, yn y Rhyl a Dinbych.
- **Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu** – bydd datblygu Gerddi Glasfryn yn darparu darpariaeth egwyliau a seibiant byr
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd cydweithio ar lefel rhanbarthol ac isranbarthol

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae yna ddwy brif ffynhonnell arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a fydd ar gael i ddatblygu prosiectau cyfalaf:

6.1.1. **Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysio** - y pot terfynol o arian sydd ar gael ar gyfer 2023-2024 yw £60 miliwn a £70 miliwn yn 2024 - 2025. Nid oes dyraniad penodol ar gyfer y Rhanbarth, dyma ddyraniad Cymru gyfan ac mae'n rhaid gwneud cais am yr arian. Felly, mae'n hanfodol fod ein prosiectau o flaenoriaeth yn cynnwys y Cynllun Cyfalaf Strategol Rhanbarthol gan ei fod yn gatalydd i gyflwyno ceisiadau cyllid i Lywodraeth Cymru.

6.1.2. **Y Gronfa Tai â Gofal** - mae'n cael ei ddyrannu ar sail Ranbarthol ac mae Gogledd Cymru wedi derbyn £14.2 miliwn ar gyfer 23/24 gyda'r un cyfanswm dros y 2 flynedd ariannol nesaf yn 25/26. Mae'n cael ei ddyrannu ar sail cais, ond eto yn gysylltiedig â'r Cynllun Cyfalaf Strategol Rhanbarthol. Mae'r cyllid wedi cael ei wneud ar gael i sefydlu rhaglen gyfalaf pedair blynedd yn y lle cyntaf ac yna datblygu cynllun cyfalaf strategol 10 mlynedd (CCS) ar gyfer pob rhanbarth.

6.2. Bydd y cyllid yn cefnogi Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru i ddarparu ystod o atebion i hyrwyddo annibyniaeth, lles a gofal yn agosach i adref ar gyfer ein cymunedau mewn modd sy'n cyd-fynd â blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru a'r hwb i gyflawni Sero Net ar gyfer y rhaglen Datgarboneiddio.

6.3. Yn ogystal, gall prosiectau ddewis i ychwanegu at eu gwariant cyfalaf drwy gael mynediad i gynlluniau cyllid eraill perthnasol ac wedi'u targedu, cyfalaf o fuddsoddiad sefydliadol mewnol, yn ogystal ag edrych ar bartneriaethau cyhoeddus-preifat gyda'r trydydd sector neu'n ehangach. Pwynt pwysig i'w nodi yw bod rhanbarthau ddim yn mynd i gael eu darparu gyda dyraniad cymesur o'r

gronfa IRCF. Bydd penderfyniadau ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr holl ranbarthau yn seiliedig ar deilyngdod y prosiectau arfaethedig unigol yn unig.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Aseiad o'r Effaith ar Les ar gyfer y Cynllun Strategol 10 Mlynedd Ranbarthol. Fodd bynnag, bydd unrhyw brosiect sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r cynllun angen Aseiad o'r Effaith ar Les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Wrth ddatblygu'r Cynllun Rhanbarthol mae yna ymrwymiad sylweddol wedi bod gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (BPRh), y Bwrdd Cronfa Gyfalaf sy'n is-grŵp o'r BPRh ynghyd â nifer o swyddogion o bob un o'r partneriaid BPRh, gan gynnwys nifer o staff Sir Ddinbych.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Gan ei bod yn dod yn fwy pwysig i'r Cyngor allu ariannu buddsoddiad cyfalaf o adnoddau ei hun rhaid gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i sicrhau cyllid allanol. Bydd y strategaeth yn golygu bod y Cyngor yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw risgiau o ran creu a chyhoeddi'r Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7.4.2 (b) o Gyfansoddiad y Cyngor.